Papur y Bwrdd

10 Chwefror 2015

Teitl y Papur	**Rhaglenni lliniaru amgen ar gyfer afonydd yng Nghymru wedi'u stocio ag eogiaid yn flaenorol**
Cyfeirnod y Papur:	**CNC B B 10.15**
Paratowyd y Papur gan:	Peter Gough

Pwrpas y Papur:	**Er gwybodaeth**
Argymhelliad:	Nodi'r cynnydd
Angen Penderfyniad:	Cymeradwyo'r ffordd ymlaen.

Effaith: Noder – mae'n bosibl nad yw pob pennawd yn berthnasol i'r pwnc	**Effaith ar yr Amgylchedd**: Drwy eu natur, bydd y gwaith lliniaru amgen arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol ar rywogaethau eogiaid yn ogystal â rhywogaethau eraill o bysgod ac ar amgylcheddau lleol. **Effaith ar yr Economi**: Mae gan bysgodfeydd Cymru gyfraniad pwysig o ran darparu swyddi ac incwm i bysgotwyr a'r diwydiant ymwelwyr. Bydd y gwaith arfaethedig yn creu manteision i'r poblogaethau pysgod sy'n cefnogi'r gweithgareddau hyn. **Effaith ar y Gymuned**: Bydd ymgysylltu â grwpiau dalgylchoedd yn cyfrannu at ymdeimlad o berthyn i afonydd lleol a'r materion sy'n effeithio arnynt. Bydd y gwaith yn darparu cyfleoedd addysg, hamdden a'r manteision iechyd cysylltiedig. **Effaith ar Wybodaeth**: Bydd y grwpiau dalgylchoedd yn ychwanegu at wybodaeth leol, yn llywio CNC a phartneriaid ar faterion rheoli'r stociau pysgod a bodloni gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, ac felly'n cefnogi cyfleoedd gwyddoniaeth dinasyddion.

Pwnc

1. Yn dilyn y penderfyniadau i roi'r gorau i stocio eogiaid a sewin yng Nghymru, cau deorfeydd Maerdy a Mawddach, ac ymroi i greu canolfan ymchwil yng Nghynrig, rydym yn datblygu rhaglenni lliniaru amgen a chynigion i gyflawni ein hymrwymiadau.

Crynodeb

2. Mae'r papur hwn yn disgrifio'r sefyllfa bresennol, a'r gwaith sydd ar y gweill dros y misoedd nesaf, i gynyddu ein hymrwymiad i raglenni lliniaru amgen, a chau a gwerthu ein dwy ddeorfa ym Maerdy a Mawddach, ac ystyried rôl deorfa Cynrig yn y dyfodol.

Cefndir

3. Yng nghyfarfodydd y Tîm Gweithredol a'r Bwrdd yr hydref diwethaf, penderfynwyd rhoi'r gorau i stocio eogiaid a sewin yn afonydd Cymru, cau deorfeydd CNC ym Maerdy a Mawddach ac archwilio rôl deorfa Cynrig yn y dyfodol.

Rydym wedi cynnal gwaith ar bob elfen o'r penderfyniad hwnnw.

Mesurau lliniaru amgen

4. Mae rhaglenni stocio allanol CNC wedi dod i ben erbyn hyn, ac eithrio ychydig o stociau dros ben o'r cylch olaf o gynhyrchu pysgod. Ni fydd gwaith stocio newydd ar ôl 2015.

5. Bydd gwaith amgen, sy'n cynnwys mathau gwahanol o wella a chynnal cynefinoedd yn cael ei wneud ym mhob un o'r saith dalgylch afon dan sylw (Atodiad 1).

Sail gyfreithiol y rhaglenni

6. Mae'r sail gyfreithiol ar gyfer gwaith ym mhob dalgylch wedi'i chrynhoi yn Atodiad 2.

Grwpiau dalgylch

7. Rydym wedi sefydlu grwpiau dalgylch ar gyfer pob un o'r saith afon dan sylw, gyda'r aelodau'n hanu o Grwpiau Pysgodfeydd Lleol yn bennaf, ymddiriedolaethau afonydd a grwpiau gweithgar yn y dalgylchoedd. Mae'r cyfarfodydd cyntaf wedi'u cynnal erbyn hyn, a chafwyd agwedd adeiladol at y dasg. Gwelwyd cynnydd da ar y cyfan o safbwynt mesur ein targedau lliniaru, er bod natur hynod benodol llawer o'r camau gweithredu yn golygu bod cryn dipyn i'w wneud eto. Bydd pob cynllun yn cofleidio dull rheoli ar lefel yr ecosystem. Ein nod yw cael cynlluniau'n barod i lywio gwaith ymarferol a fydd yn cychwyn ym mlwyddyn fusnes 2015/16.

8. Mae'r gwaith yn amlwg yn mynd i'r afael â'r materion a ystyriwyd yn rhaglenni gwaith y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a bydd hefyd yn cyflwyno manteision i amcanion y safleoedd hynny a stociwyd yn flaenorol sydd wedi'u dynodi'n safleoedd Natura 2000 (Dyfrdwy, Mawddach, Cleddau, Tywi, Gwy). Mae'n bwysig bod gwahaniaeth rhwng y

cynlluniau gwaith gan fod ymrwymiad i sicrhau bod y gwaith lliniaru yn ychwanegol at y gwaith beunyddiol.

9. Bydd cam cychwynnol y gwaith lliniaru amgen yn dechrau cyn cwblhau Cynlluniau Rheoli Basn Afon y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (cylch 2), a'i fwriad yw cwmpasu cyfnod o 5 mlynedd. Ar ôl hynny, bydd adolygiad i benderfynu ar y canlynol:

    - A lwyddwyd i gyflawni'r targed lliniaru meintiol yn llawn neu'n rhannol
    - Natur barhaus gwaith lliniaru amgen
    - Y sail ariannol barhaus ar gyfer hyn

Cau deorfeydd Maerdy a Mawddach

10. Cafodd deorfa Mawddach ei dadgomisiynu'r hydref diwethaf, ac rydym wrthi'n dadgomisiynu deorfa Maerdy ar hyn o bryd. Y nod yw cwblhau hyn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Ein bwriad yw dechrau ar gynllun gwerthu'r deorfeydd, a chael cadarnhad y bydd elw'r gwerthiant yn cael ei fuddsoddi mewn rhaglen liniaru amgen.

Gweithgareddau'r dyfodol yng Nghynrig

11. Cynrig yw canolbwynt holl waith bioddiogelwch deorfeydd CNC erbyn hyn, a bydd y rhaglenni ar gyfer y rhywogaethau canlynol yn parhau hyd nes y bydd dyfodol y ddeorfa wedi'i datrys:-

    Cimwch afon crafanc wen (brodorol)
    Misglen berlog
    Llygoden y dŵr
    Torgoch (Llyn Padarn)

12. Bydd y rhaglenni hyn yn cyfrannu at gyflawni amcanion cenedlaethol dan gynlluniau bioamrywiaeth.

13. Hefyd, mae pecynnau bach o waith magu eogiaid ar droed er mwyn paratoi'r pysgod sydd eu hangen i gefnogi ymchwiliadau pellach yn llifddorau'r Bala (dalgylch afon Dyfrdwy) a phŵer hydro cored Radur (dalgylch afon Taf). Hefyd, mae angen i ni ddarparu'r gallu i fynd i'r afael â'r ymrwymiad dan gytundeb Ymddiriedolaeth Mawddach.

14. Mae'r gwaith o ystyried dyfodol posibl i Gynrig fel canolfan ymchwil dŵr croyw a physgodfeydd yn parhau. Rhan o'r gwaith fydd cysylltu â'n landlord er mwyn addasu'n gweithredoedd ar y safle hwn.

15. Rydym wedi sicrhau cytundeb â Phrifysgol Abertawe i gydweithio ar achos busnes amlinellol a fydd yn disgrifio gweledigaeth y gwaith, gan arwain at lunio achos busnes amlinellol erbyn haf 2015. Ein huchelgais yw bod y gwaith yn cynnwys partneriaeth â

sefydliadau allweddol eraill gan gynnwys prifysgolion eraill Cymru a chyrff anllywodraethol, ac ymgynghoriad llawn ag adrannau CNC.

16. Bydd holl waith Cynrig yn cael ei ariannu trwy gyllideb i'w chytuno â ET. Grŵp llywio fydd yn rheoli'r prosiect, a does dim arweinydd hyd yma.

Camau nesaf

Cynlluniau lliniaru amgen

17. Bwriedir cynnal cyfarfodydd pellach o'r grŵp i sicrhau bod pawb yn cydymffurfio â'r cynlluniau, ac yn eu blaenoriaethu a'u gweithredu yn ystod Ch3 a Ch4.

18. Byddwn yn darparu adnoddau staff a rheoli drwy reolwyr cyfredol y Prosiect Pysgodfeydd Cynaliadwy sy'n gweithio ym mhob un o'r tair ardal berthnasol.

Gwaredu Maerdy a Mawddach

19. Er mwyn sicrhau'r enillion ariannol gorau, byddwn yn ymgysylltu â'n tîm Ystadau i ystyried sut a phryd y dylid gwerthu'r asedau hyn.

20. Byddwn yn gofyn am ganiatâd gan ET i ddefnyddio'r cronfeydd hyn i gyflawni ymrwymiadau lliniaru amgen.

Gweithrediadau'r dyfodol yng Nghynrig

21. Byddwn yn bwrw ymlaen â gwaith cysylltu a chwmpasu gyda Phrifysgol Abertawe, ac yn ymgysylltu â'r grŵp rhanddeiliaid llawn gan gynnwys:-

    Prifysgol eraill Cymru
    Afonydd Cymru
    Dŵr Cymru

Bydd angen nodi rheolwr prosiect yn CNC i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

Risgiau

Y prif risgiau ar gyfer y pecyn gwaith a nodir uchod yw:-

22. Her gyfreithiol i'r penderfyniad ategol i roi'r gorau i stocio
    Mae'n tîm cyfreithiol wedi mynd i'r afael â hyn (gweler y papur i'r Tîm Gweithredol, Medi 2014). Hyd yma (8.1.15) nid ydym wedi cael hysbysiad o fwriad gan drydydd partïon i ofyn am adolygiad cyfreithiol o'r penderfyniad. Risg isel.

23. Diffyg ymgysylltu gan grwpiau lleol
    Nid yw hyn yn cael ei ystyried yn risg uchel, ar sail gwaith ymgysylltu hyd yma. Risg isel

24. Ansicrwydd o ran ariannu rhaglenni
Mae hyn yn dibynnu ar benderfyniadau'r Tîm Gweithredol. Risg uchel

25. Ansicrwydd o ran y berthynas â rhaglenni'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr
Y syniad cyffredinol yw y bydd yr holl waith sy'n ofynnol yn y dalgylchoedd afon, yn enwedig rhai sydd wedi'u dynodi'n safleoedd Natura 2000, yn cael ei weithredu dan gynlluniau gwaith y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, gyda rhai yn nalgylchoedd afonydd Natura 2000 wedi'u cwblhau erbyn 2021.

26. Mae angen systemau cyfathrebu da i esbonio hyn. Yn y cyfamser, bydd y grwpiau dalgylchoedd yn parhau i lunio'r cynlluniau gweithredu gofynnol. Risg canolig

27. Ansicrwydd o ran cyfrannu at waith partneriaeth
Mae'n ymddangos bod amheuaeth ynghylch y mecanweithiau cyfreithiol a ddefnyddiwyd yn y gorffennol i ymgysylltu'n effeithiol â phartneriaid trwy gyfrwng Llythyrau Cytundeb ar gyfer partneriaethau a ariennir ar y cyd. Mae angen datrys hyn. Risg canolig ar hyn o bryd.

28. Adnoddau staff
Mae'r holl waith a ddisgrifir yma'n dibynnu ar adnoddau staff pysgodfeydd. Bydd proses ailstrwythuro ac ymadawiadau staff presennol dan y Cynllun Ymadael Gwirfoddol yn rhoi pwysau ar yr adnoddau sy'n weddill, a allai gyfyngu ar ein gallu i fwrw'r rhaglen waith hon ymlaen.
Bydd angen i ni gadarnhau grŵp llywio a rheolwr prosiect. Risg canolig/uchel

Goblygiadau ariannol

29. Cafwyd ymrwymiad i ddyrannu'r adnoddau ariannol a neilltuwyd ar gyfer deorfeydd a stocio yn wreiddiol, i'r rhaglenni lliniaru amgen, a chynnal gweithrediadau Cynrig yn amodol ar benderfyniad ynglŷn â'i rôl yn y dyfodol.

30. Y gyllideb amlinellol a gynigir yw £472,000 (oddeutu 84% o goffrau CNC, a'r gweddill o ffynonellau allanol) ac mae'n golygu ail-fuddsoddi adnoddau ariannol a arferai gael eu defnyddio ar gyfer gwaith deorfeydd a stocio.

Cyfathrebu

31. Ers y penderfyniad, mae 12 rhanddeiliad wedi cysylltu â ni, gyda phob un ond un yn beirniadu'r penderfyniad. Roedd pump o'r rhain yn geisiadau am wybodaeth dan Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004. Rhoddwyd ateb i bawb a ofynnodd am hynny, ac mae popeth wedi ei wneud hyd yma.
32. Mae cyfathrebu parhaus yn hollbwysig os yw'r rhaglenni gwaith a ddisgrifir yma'n i gael eu cyflwyno llwyddiannus. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n Partner Busnes Cyfathrebu i sicrhau bod hyn yn digwydd.

Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb
Amherthnasol.

Mynegai Atodiadau

Atodiad 1	Yr afonydd lle bydd rhaglenni lliniaru amgen ar waith.
Atodiad 2	Y sail gyfreithiol ar gyfer rhaglenni lliniaru amgen

Atodiad 1
Yr afonydd lle bydd rhaglenni lliniaru amgen ar waith

Cyfarwyddiaeth	Afon	Sbardun cyfreithiol ar gyfer lliniaru
Y Gogledd	Dyfrdwy	Dim.
	Seiont	Dyletswydd i weithredu cynllun diogelu pysgodfeydd mewn perthynas â chronni Llyn Peris
	Mawddach	Cytundeb ag Ymddiriedolaeth Mawddach
Y De	Cleddau	Wedi'i gyllido'n allanol trwy gytundeb â Dŵr Cymru, mewn perthynas â chronni Llys-y-frân a Llyn Brianne
	Tywi	
	Taf ac Elái	Wedi'i gyllido'n allanol trwy gytundeb â Chyngor Dinas Caerdydd, mewn perthynas â Morglawdd Bae Caerdydd. Daw'r cytundeb i ben yn 2020.
	Gwy	Dim.

Atodiad 2
Y sail gyfreithiol ar gyfer rhaglenni lliniaru amgen

Dyma ein cyngor cyfreithiol ar gyfer y cytundebau sydd ar waith ar gyfer pedwar o'r saith dalgylch afon:

Seiont	Mae gan CNC ddyletswydd gytundebol i weithredu Cynllun Diogelu Pysgodfeydd y cytunwyd arno, sy'n cynnwys stocio ar hyn o bryd. Gellir diwygio'r darpariaethau os bydd CNC yn penderfynu y byddai hynny o fudd i'r bysgodfa dan sylw. Does dim gofyniad i fodloni'r ymrwymiadau lliniaru trwy stocio'n unig.
Mawddach	Mae cytundeb yn bodoli ag Ymddiriedolaeth Mawddach i ddarparu tanc magu pysgod tan 2020. Mae trafodaethau ar y gweill gyda'r Ymddiriedolaeth i holi a fyddant yn cytuno i'r syniad o newid hyn i raglen liniaru amgen. Os na ellir cytuno ar hyn, yna bydd gofynion y cytundeb yn cael eu gwireddu trwy waith magu pysgod bach yng Nghynrig.
Cleddau }	Mae'r ddwy afon hyn yn destun cytundebau lliniaru cyfredol gyda chwmni Dŵr Cymru.
Tywi }	Rydym yng nghanol trafodaethau pellach gyda nhw, yn ogystal â grwpiau dalgylchoedd, ar ddulliau amgen o gyflwyno'r rhaglenni lliniaru, ac efallai y bydd trefniadau cyfredol yn cael eu diwygio.
Taf ac Elái	Mae gennym gytundeb, ac mewn trafodaethau pellach ag Awdurdod Harbwr Caerdydd (rhan o Gyngor Dinas Caerdydd) i weithredu rhaglen liniaru amgen i gymryd lle elfennau stocio cyfredol y rhaglen liniaru. Byddwn yn dechrau ar y gwaith o ddiwygio'r cytundeb cyfreithiol yn ffurfiol cyn hir.
Dyfrdwy} Gwy }	Does dim sail gyfreithiol sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i wneud gwaith stocio neu liniaru amgen yn y ddau ddalgylch arall.